**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 21 MEDI 2023 DYDD IAU, 21 MEDI 2023**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

Councillors C. Smith (Aelod Llywyddol)
C. Bainton
P. Baldwin
S. Behr
D. Bevan
K. Chaplin
M. Cross
H. Cunningham
D. Davies
G. A. Davies
M. Day
S. Edmunds
J. Gardner
J. Hill
W. Hodgins
J. Holt
G. Humphreys
R. Leadbeater
J. Morgan, J.P.
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
D. Rowberry
T. Smith
G. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
L. Winnett

WITH: Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg
Prif Swyddog Adnoddau
Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau
Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol
Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Stadau
Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata
Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr E. Jones, J. Thomas, D. Wilkshire, D. Woods, Prif Weithredwr Interim a'r Pennaeth Datblygu Sefydliadol. | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **<u>CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw gyhoeddiadau yn y cyfarfod hwn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 5** | **LLYFR PENDERFYNIADAU – MEHEFIN-MEDI 2023 2023**<br><br>Cyflwynwyd y Llyfr Penderfyniadau ar gyfer y cyfnod Mehefin – Medi 2023 i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo a chadarnhau'r penderfyniadau fel cofnod gywir o'r trafodion. | |
| **No. 6** | **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 7** | **PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 8** | **CABINET**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 9** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CABINET**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 10** | **PWYLLGOR CRAFFU LLE**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 11** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL A PHERFFORMIAD**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 12** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL A PHERFFORMIAD**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 13** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 14** | **PWYLLGOR CRAFFU POBL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 15** | **CYFARFOD CYFFREDIN Y CYNGOR – DALEN WEITHREDU**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2023.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i nodi'r wybodaeth a gynhwysir yn y Ddalen Weithredu. | |
| **No. 16** | **CWESTIYNAU AELODAU**<br><br>Ni chafodd unrhyw gwestiynau eu cyflwyno gan Aelodau. | |
| **No. 17** | **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**<br><br>Ni chafodd unrhyw gwestiynau eu cyflwyno gan aelodau o'r cyhoedd. | |
| **No. 18** | **DIWYGIADAU I'R CYFANSODDIAD**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol (Swyddog Monitro). Ar hynny:<br><br>**Paragraff 4.2/Tud. 31 – Y Fframwaith Polisi – Strategaeth Tai -**<br>Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol er y cynigiwyd yn wreiddiol i ddileu'r cyfeiriad yn y Cyfansoddiad at | |

| | | |
|---|---|---|
| | y Strategaeth Tai, yn dilyn ystyriaeth bellach ac ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet, cytunwyd y byddai'r Strategaeth Tai yn parhau o fewn y Fframwaith Polisi yn unol â fersiwn 2022 y Cyfansoddiad.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar y diwygiad uchod i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod y diwygiadau a awgrymir yn cael eu cymeradwyo a'u cynnwys yn y Cyfansoddiad presennol. | |
| **No. 19** | **<u>ADRODDIAD ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS 1 EBRILL 2022 I 31 MAWRTH 2023</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Yn dilyn trafodaeth,<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef nodi'r gweithgaredd rheoli trysorlys a wnaethpwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 a derbyn y cofnod perfformiad a chydymffurfiaeth a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. | |
| **No. 20** | **<u>DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN CYFALAF</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Yn dilyn trafodaeth faith, cynigiwyd:<br><br>- Yng nghyswllt Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, fod cytuno ar opsiynau 2 a 3, yn amodol ar adroddiad pellach yn rhoi manylion dadansoddiad budd cost llawn, yr effaith ar y gyllideb a'r gymuned a rhai sy'n cael budd o'r Grantiau (tra'n sicrhau fod yr addasiadau ar gael ar gyfer y rhai nad oedd â'r modd i dalu) ynghyd â'r cyflymder y gellid ymateb i geisiadau.<br><br>- Cynnal trafodaeth drawsbleidiol bellach ar yr holl raglen cyfalaf.<br><br>PENDERFYNWYD ymhellach, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef dyrannu adnoddau | |

| | | |
|---|---|---|
| | cyfalaf i'r cynlluniau blaenoriaeth/prosiectau a ddynodwyd ac a fanylir yn yr adroddiad, h.y.<br><br>**Gwaith Gwella Priffyrdd –** Cymeradwyo Opsiwn 2 h.y dyrannu £500,000 ar gyfer 2023/2024.<br><br>**Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl –** Cymeradwyo Opsiynau 2 a 3, h.y. cynyddu'r dyraniad cyfalaf i £400,000 y flwyddyn (ar gyfer 2023/24 a 2024/25) a rhoi ystyriaeth i ailosod yr elfen prawf modd ar gyfer y broses gais.<br><br>**Trosglwyddo Asedau Cymunedol, Grantiau Cartrefi Gwag, Ysgol Glyncoed – Llinell Draeniad Storm, dymchwel Ysgol Pen-y-Cwm (hen safle) ac Ardaloedd Chwarae –** Cymeradwyo Opsiwn 2 a dyrannu cyllid ar gyfer yr amcangyfrif symiau fel sy'n dilyn:<br><br>- Trosglwyddo Asedau Cymunedol - £140,000<br>- Grantiau Eiddo Gwag - £100,000<br>- Llinell Draeniad Storm Ysgol Glyncoed - £100,000<br>- Dymchwel Ysgol Pen-y-Cwm (hen safle) - £200,000<br>- Ardaloedd Chwarae - £50,000<br><br>-<br>**Canolfan Ddinesig, Glynebwy – Dymchwel -** £500,000 i gael ei dyrannu o'r adnoddau cyfredol. | |
| **No. 21** | **<u>MABWYSIADU CYNLLUN RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD 2023-2028</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm – Golwg Strydoedd.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, h.y. cefnogi mabwysiadu Cynllun Cynnal a Chadw Asedau priffyrdd 2023-2028. | |
| **No. 22** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/23 Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, h.y. cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2022/2023 y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer ei gyhoeddi. | |
| **No. 23** | **<u>CAPASITI CANOLFANNAU ADNODDAU DIY – GWEITHREDU ARFAETHEDIG CANOLFANNAU ADNODDAU YCHWANEGOL</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn y dilynol:<br><br>• yr adroddiad Gwrthwynebiadau, gyda thystiolaeth o'r Hysbysiad Statudol (Atodiad 1) a chymeradwyaeth grantiau i symud ymlaen i'r cam gweithredu a<br><br>• yr achos busnes llawn (Atodiad 2) yng nghyswllt gweithredu'r canolfannau adnoddau o fis Medi 2023 ymlaen. | |
| **No. 24** | **<u>ADRODDIAD AELODAETH</u>**<br><br>**<u>Panel Ymgynghorol ar gyfer Llywodraethwyr Ysgol</u>**<br><br>Gwnaed yr argymhellion dilynol gan y Panel ar 13 Medi 2023 i benodi mewn egwyddor:<br><br>**Ysgol Gynradd Trehelyg –** Sian Barrett<br><br>**Ysgol Gynradd Ystruth –** Melanie Rogers<br><br>**Ysgol Gynradd Cwm –** Natalie Marshall<br><br>**Ysgol Gynradd Coed-y-Garn –** Joan Price<br><br>**Ysgol Sefydliadol Brynmawr –** Gail Watkins<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r penodiadau uchod.<br><br>**<u>Pwyllgor Cyswllt Cynghorau Tref/Cymuned</u>**<br><br>PENDERFYNWYD sefydlu Pwyllgor Cyswllt Cynghorau | |

| | | |
|---|---|---|
| | Tref/Cymuned gyda'r aelodaeth ddilynol:<br><br>Arweinydd/Aelod Cabinet – Trosolwg Corfforaethol a Pherfformiad (Cadeirydd)<br><br>Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet – Lle ac Amgylchedd<br><br>Aelod Cabinet – Lle ac Adfywio a Datblygu Economaidd<br><br>-<br>Aelod Cabinet – Pobl ac Addysg<br><br>Aelod Cabinet – Pobl a Gwasanaethau Cymdeithasol | |